

Mae gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol rolau hyblyg sy'n galluogi ein pobl i roi eu gorau, ehangu eu sgiliau a rheoli eu llwybr gyrfa. Ni fwriedir i'r proffil swydd hwn fod yn rhestr gynhwysfawr o'ch dyletswyddau, yn hytrach mae'n rhoi amlinelliad i chi o'r hyn y bydd eich rôl yn ei gynnwys. Chi fydd yn gweithio gyda'ch cydweithwyr i ddatblygu a siapio eich gwaith yn unol â'n hamcanion strategol ac amcanion eich tîm.

Swyddog Cyfathrebu ac Ymgysylltu

Ein swyddogion

Fel swyddog o fewn y Gronfa, beth bynnag fo'ch arbenigedd, bydd gennych ddigon o gwmpas ar gyfer annibyniaeth a chyfrifoldeb. Byddwch yn defnyddio eich barn a'ch gwybodaeth i wneud argymhellion a phenderfyniadau, a bydd eich sgiliau wrth ddeall anghenion gwahanol gwsmeriaid, gan gynnig cyngor ac adborth, yn dod i'r amlwg. Ni fydd angen llawer o oruchwyliaeth nac arweiniad arnoch gan eich cydweithwyr uwch gan y byddwch yn cymryd arweinyddiaeth a rheolaeth bersonol dros eich gwaith a'ch datblygiad eich hun. Byddwch yn ymfalchïo yn eich gwaith ac yn dylanwadu ac yn ymgysylltu mewn ffordd gadarnhaol â'n cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid yn fewnol ac yn allanol.

Eich rôl

Yn y rôl benodol hon, byddwch chi'n rhoi cwsmeriaid wrth wraidd ein gwaith a bydd gennych arbenigedd cynradd naill ai yn y cyfryngau, materion cyhoeddus neu ymgysylltu. Byddwch chi'n alluog o ran ymgysylltiad digidol, brand a chwsmeriaid, ac yn wybodus ac yn angerddol dros ein cynnig ariannu. Bydd cydweithio'n bwysig er mwyn sicrhau cysondeb rhwng ein negeseuon yn lleol a ledled y DU.

Byddwch chi'n chwaraewr tîm cryf, sy'n defnyddio dull cydweithredol ac yn mwynhau gweithio gydag amrywiaeth eang o bobl gyda gwahanol lefelau o wybodaeth. Byddwch chi'n hyblyg ac yn gallu rheoli llwyth gwaith prysur a gweithio ar sawl prosiect. Bydd hefyd gennych chi sgiliau cyfathrebu, datrys problemau, blaenoriaethu a rheoli amser gwyd, a byddwch chi'n gallu dadansoddi data i hysbysu'r hyn a wnawn.

Bydd hefyd gennych y cyfle i gyfrannu at feysydd gwaith eraill i'n helpu i fod yn rhoddwr grantiau gwyd. Wrth gwrs, bydd hefyd angen i chi weithio o fewn polisiau a gweithdrefnau'r Gronfa a'r ddeddfwriaeth angenrheidiol, a hynny mewn ffordd sy'n unol â'n gweledigaeth ac egwyddorion. Os yw'r rôl yng Nghymru, neu'n cefnogi cwsmeriaid neu gydweithwyr yng Nghymru, mae dealltwriaeth o ddeddfwriaeth yr iaith Gymraeg a Safonau Iaith Gymraeg y Gronfa'n ofynnol.

Mae'r uchod yn berthnasol i bob rôl, ond yn dibynnu ar eich cefndir a phrofiad, byddwch chi'n gweithio mewn un o'r meysydd canlynol:

Y Cyfryngau

Bydd sgiliau ysgrifennu cryf gennych, a byddwch chi'n gwybod sut i ddatblygu negeseuon allweddol ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaeod. Bydd angerdd gennych dros adrodd straeon a'u defnyddio i ymddiddori a hysbysu amrywiaeth o gynulleidfaeod a rhanddeiliaid am waith y Loteri Genedlaethol a Chronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol. Bydd profiad gennych o'r arferion gorau i ymgysylltu ac adeiladu perthnasoedd gyda'r cyfryngau a gwybodaeth gref o'r dirwedd aml-gyfrwng newidiol. Byddwch chi'n cynnig cefnogaeth i'n deiliaid grant, gan eu helpu i ddeall sut rydym yn defnyddio amrywiaeth o gyfryngau i ddylanwadu a darlunio effaith a defnyddio ein brand.

Materion cyhoeddus

Byddwch chi'n hysbysu Aelodau Seneddol (MPs), Aelodau o'r Cynulliad Deddfwriaethol (MLAs) a rhanddeiliaid allweddol eraill am ein gwaith a gwaith ein deiliaid grant, gan gefnogi'r Gronfa i feithrin perthnasoedd i sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'n gwaith ac yn fodlon bod yn eiriolwyr dros y gwaith a wneir. Byddwch chi'n cefnogi datblygiad ein strategaeth materion cyhoeddus. Bydd sgiliau ysgrifennu cryf gennych a byddwch chi'n gwybod sut i ddatblygu negeseuon allweddol. Bydd angerdd gennych dros ddefnyddio straeon i ymgysylltu amrywiaeth o gynulleidfaeod, gan gynnwys cynrychiolwyr etholedig a rhanddeiliaid, â gwaith y Loteri Genedlaethol a Chronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol. Byddwch chi'n hyderus wrth drefnu cyfarfodydd a digwyddiadau a datblygu briffiau ar gyfer rhanddeiliaid a chynrychiolwyr etholedig.

Ymgysylltu

Bydd sgiliau ysgrifenedig a llafar cryf gennych i greu a chyfathrebu ein cynnig ariannu o ddogfennau craidd i gynnwys print a digidol o ddydd i ddydd. Byddwch chi'n hyderus wrth drefnu digwyddiadau i gwsmeriaid a rhanddeiliaid a chyfathrebu'r rhain trwy farchnata ar-lein ac all-lein creadigol. Byddwch chi'n cynnig cefnogaeth i'n deiliaid grant gan eu helpu i ddeall sut rydym ni'n defnyddio ein brand.

Eich profiad

Fel swyddog, efallai y byddwch wedi cael dyrchafiad trwy ein llwybrau gyrfaeod mewnol wedi i chi ddangos eich sgiliau a'ch galluoedd arwain, neu fe allwch wedi dod o faes allanol. Y naill ffordd, bydd angen i chi ddangos eich profiad a'ch cymwysterau yn y meysydd hyn:

Y cyfryngau

- Dealltwriaeth gref o dirwedd y cyfryngau a phrofiad fel newyddiadurwr, gweithio mewn tîm cyfathrebu corfforaethol neu gysylltiadau cyhoeddus
- Profiad o ysgrifennu cynnwys da ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaeod a fformatau, a phrofiad sylweddol o ddefnyddio sianeli digidol a chyfryngau cymdeithasol
- Y gallu i ddefnyddio data i ddylunio, cynllunio, trefnu, gwerthuso a chyflawni gwaith ymgyrchu'n hyblyg fel rhan o'r tîm

Materion Cyhoeddus

- Dealltwriaeth gref a phrofiad sylweddol o'r dirwedd materion gwleidyddol

- Profiad o ysgrifennu cynnwys ar gyfer amrywiaeth o ddefnyddiau a fformatau, a phrofiad sylweddol o ddefnyddio sianeli digidol a chyfryngau cymdeithasol
- Y gallu i ddylunio, cynllunio, trefnu a gwerthuso gweithgarwch materion cyhoeddus a gweithio'n hyblyg fel rhan o'r tîm

Ymgysylltu

- Dealltwriaeth gref o bwysigrwydd brand ar draws y cymysgedd cyfathrebu
- Profiad o ddefnyddio mewnwelediad a arweinir gan ddata i adeiladu ymgyrch gyfathrebu, asesu ei heffaith a gwerthuso ei llwyddiant
- Profiad o egwyddorion a dyluniad gwasanaethau cwsmeriaid gwych
- Y gallu i ddefnyddio a gwerthuso ffynonellau data a thechnolegau priodol i ymgysylltu'n effeithiol â chwsmeriaid a rhanddeiliaid

Byddwch chi'n gallu

ARWEINYDDIAETH A RHEOLI

- Bod yn ymgysylltiol ac yn frwdfrydig i weithio tuag at nodau cyffredin, ac annog eraill i wneud yr un peth
- Ymrwymo i weledigaeth ac egwyddorion y Gronfa, ac annog eraill i wneud yr un peth
- Cymryd perchnogaeth dros ddatblygiad personol eich hun drwy adnabod eich cryfderau a meysydd datblygu, gan ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael i gefnogi hyn
- Bod yn chwaraewr tîm cefnogol sy'n dangos diddordeb mewn eraill ac yn datblygu amrywiaeth o gysylltiadau y tu allan i dîm eich hun i helpu cyflawni'r swydd

MEITHRIN PERTHNASOEDD GWYCH

- Rhwydweithio'n fewnol ac yn allanol, gan roi eich hun mewn sefyllfa cwsmeriaid a gweithredu ar y pethau sy'n bwysig i bobl
- Cyfathrebu mewn ffordd onest ac ymgysylltiol, gyda'r gallu i ddylanwadu a thrafod gan ddefnyddio dadleuon da ac amrywiaeth o strategaethau i argyhoeddi eraill
- Gwrando'n weithredol ac ymateb i eraill mewn ffordd hysbys, gan gydnabod cyfraniad a gwerth safbwyntiau amrywiol

CYFRIFOLDEB PERSONOL

- Chwilio am adborth a gweithredu arno'n barhaus er mwyn gwerthuso a gwella perfformiad eich hun
- Aros yn ddigynnwrf o dan bwysau ac ymdrin â sawl blaenoriaeth sy'n cystadlu â'i gilydd, gan gefnogi eraill pan fo angen
- Cymryd perchnogaeth a bod yn atebol ar gyfer gwaith eich hun, ac annog cydweithwyr i wneud yr un peth

CYFLWYNO

- Adnabod cyfleoedd i rannu dysgu a gwybodaeth, a gwneud gwelliannau trwy weithio â chydweithwyr
- Defnyddio'r systemau a'r data sydd ar gael i chi gwblhau gwaith eich hun yn effeithiol a gwella gwaith eich tîm
- Chwilio'n weithredol am wybodaeth sydd ar gael a'i dadansoddi, gan ei defnyddio i hysbysu eich barn a chwblhau eich gwaith yn effeithiol
- Bod yn ymatebol i broblemau a thueddiadau sy'n dod i'r amlwg ac yn effeithio ar eich gwaith, gwaith eich tîm neu'r Gronfa

Swyddog Cyfathrebu ac Ymgysylltu

- Deall gofynion llywodraethu da a darparu datrysiadau i risgiau a phroblemau

Ein meddylfryd

- Rwy'n angerddol am botensial gwneud grantiau ardderchog
- Rwy'n ymroddedig i rwydweithio effeithiol ar draws a'r tu hwnt i'r Gronfa
- Rwy'n gwerthfawrogi amrywiaeth a dyheadau cymunedau a chydweithwyr gan gydnabod yr angen i gyflwyno cyfle cyfartal
- Rwy'n gywrain ac yn chwilio o ddifrif am ffyrdd newydd o wneud pethau
- Byddaf yn gwrando, dysgu, darparu ac annog adborth a her
- Rwyf yn gyfrifol ac yn atebol am y gwaith a wnaif
- Rwy'n gweithio'n hyblyg ac yn gydweithiol i ddiwallu anghenion eraill
- Rwy'n defnyddio gwybodaeth a phrofiad i rannu fy nysgu
- Rwyf eisiau gwneud y Gronfa yn lle gwych i weithio ynddo

Eich teulu swydd yw	Cyflwyno gweithredol	Eich cyfarwyddiaeth yw	Gogledd Iwerddon/Yr Alban/Cymru
Eich dull gweithio yw	Swyddfa	Eich templed rôl yw	Swyddog